# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes: Gwaith Gweithdrefnol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Medi 2025

Amser: 09.42 – 11.06

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Adam Vaughan, Clerc<br>Steffan Lewis, Dirprwy Glerc |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, y Dirprwy Lywydd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Finlayson, Clerc ar gyfer Adolygiad Gweithdrefnol Deddfwriaethol<br>Lisa Griffiths, Clerc Gweithdrefnau<br>Josh Hayman, Ymchwil<br>Catrin Davies, Llywodraeth Cymru<br>Anthony Cooper, Llafur Cymru<br>Jennifer Ramsay, y Ceidwadwyr Cymreig<br>Francess Ifans, Plaid Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2025

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol, yn amodol ar welliannau y gofynnwyd amdanynt.

Nododd y Pwyllgor ddiweddariad ynghylch eitem 5 (Materion amrywiol sy'n deillio o'r adolygiad o'r prosesau craffu deddfwriaethol), yn dilyn ei gytundeb ar 9 Gorffennaf 2025 y dylid cynnal trafodaethau pellach rhwng swyddogion Comisiwn y Senedd a swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch mecanweithiau ar gyfer ystyried materion technegol yn ymwneud â Biliau. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen dim camau pellach.

## 3 Cofrestru buddiannau

Ystyriodd y Pwyllgor y papur a chytunodd i ddychwelyd at y materion yn y cyfarfod ar 9 Hydref 2025, pan fydd yr Aelodau wedi ymgynghori â'u grwpiau.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag argymhelliad 11 o adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Nododd yr Aelodau eu diddordeb yng nghynnydd ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Gofrestru a Datgan Buddiannau.

## 4 Adolygiad o'r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod: Deunyddiau esboniadol ar gyfer Biliau

Nododd yr Aelodau gymhariaeth o ran gofynion mewn deddfwrfeydd eraill, ystyriodd y papur a chytunodd ar y canlynol:

- Materion o egwyddor ynglŷn â memoranda esboniadol ar gyfer Biliau, gan gynnwys diben a gwerth memoranda o'r fath ac y dylai pob Bil a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26 fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion o ran memoranda esboniadol;
- Cynnig newid i Reol Sefydlog 26 i'w gwneud yn ofynnol bod asesiad o'r effaith ar gyfiawnder yn dod gyda Biliau brys y mae'r Senedd wedi cytuno y gellir eu cyflwyno heb femorandwm esboniadol.
- Dychwelyd at y materion sy'n weddill yn y papur (gan gynnwys a ddylid cynnig unrhyw ofynion ychwanegol i'w cynnwys yn Rheol Sefydlog 26.6) yn y cyfarfod ar 9 Hydref 2025, pan fydd yr Aelodau wedi ymgynghori â'u grwpiau;
- Y dylai trafodaethau pellach gael eu cynnal rhwng swyddogion Comisiwn y Senedd a swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynigion penodol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag amcangyfrif goblygiadau ariannol ac asesu goblygiadau hawliau dynol.

### 4.1 Deunydd esboniadol

### 4.2 Cymharu'r gofynion o ran deunyddiau esboniadol

## 5 Trothwyon Rheolau Sefydlog (ag eithrio'r trothwy ar gyfer grwpiau gwleidyddol)

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft ar y Rheolau Sefydlog a chytunwyd arno.

5.1 Diwygio Rheolau Sefydlog: Trothwyon yn y Rheolau Sefydlog

## 6 Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft ar y Rheolau Sefydlog, a chytunwyd arno yn amodol ar newidiadau y gwnaed cais amdanynt.

## 7 Adolygiad o'r prosesau craffu deddfwriaethol ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod: Cyfranogi'n rhithwir, a phleidleisio mewn pwyllgorau (newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog, a chanllawiau drafft ar gyfer ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion)

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft ar y Rheolau Sefydlog a chytunwyd arno.

Cytunodd yr Aelodau dros dro ar y diwygiadau arfaethedig i'r canllawiau ar drafodion rhithwir a hybrid, ac y dylai'r newidiadau hyn ddod i rym yn y Chweched Senedd, yn amodol ar ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion yn ei gyfarfod nesaf.

7.1 Cymryd rhan yn rhithwir mewn trafodion, a dulliau pleidleisio mewn pwyllgorau

7.2 Atodiad 1 - Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

7.3 Atodiad 2 - Canllawiau diwygiedig drafft (Saesneg yn unig)